**CYNGOR TREF**
**LLANFAIRFECHAN**
**TOWN COUNCIL**

**Neuadd Gymunedol Tref Llanfairfechan Ffordd y Pentref Llanfairfechan LL330AB**
**Maer Cyng Nia Jones Dirprwy Faer Cyng Sharne-Marie Bellis**

**AGENDA Nos Fercher, Chwefror y 4ydd, 2026**
**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein drwy Microsoft Teams**

**Ymuno drwy Microsoft Teams**
https://teams.microsoft.com/meet/33828663334483?p=QhAT8kfGH1bOgbKxhA
Cyfeirnod Cyfarfod: 338 286 633 344 83
Cyfrinair: Lu7zM2Lg

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod a rhannu'r wybodaeth weinyddol gyffredinol
2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12)
3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)
4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd
5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Ionawr y 14eg, 2026, a'r Rhestr Weithredu (DLlL1972 Atodlen 12)
6. Derbyn gwybodaeth ynghylch llunio datganiad cenhadaeth ar gyfer Cyngor Tref Llanfairfechan
7. Derbyn a chymeradwyo Adroddiad Cynllun Digwyddiadau 2026
8. Derbyn a chymeradwyo Dyddiadau'r Sgipiau Cymunedol
9. Derbyn a chymeradwyo Amserlen Cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2026/27
10. Derbyn gwybodaeth a dwyn i ystyriaeth cymorth ar gyfer Prosiectau Precious Polymers Crest
11. Derbyn a chymeradwyo adroddiadau ariannol a thaliadau cyfredol ar gyfer Chwefror y 4ydd, 2026

| Taliadau i'w cyflwyno |
|---|
| **1. Cyflogau Staff Chwefror 2026 £5000** |
| **2. Llogi Neuadd Gymunedol Llanfairfechan ar gyfer digwyddiadau Paned a Sgwrs £360.00** |
| **3. SETS Ltd Goleuadau Nadolig 2024 (anfoneb hwyr) £3000.00** |
| **4. Worldcare skips 027757 £258.00** |
| **5. Delwedd cost trwyddedu £36.00** |
| **6. Un Llais Cymru / Cymorth Cynllunio Cymru Sesiwn hyfforddiant Gwella Cynefinoedd Lleol £53.00** |
| **7. British Gas Trydan yr Ardal Gemau Amlddefnydd £151.33** |
| **8. Côr Meibion y Penrhyn Rhodd am eu Perfformiad Nadolig £250** |
| **9. Gwresogyddion is-goch ar gyfer y swyddfa x 2 £68.50** |
| **10. Core cau'r ffordd ar gyfer y Ffair Nadolig £1459.** |

12. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio:
    - **0/53133** 34 Parc Henblas Llanfairfechan LL33 0RW
13. Derbyn gohebiaeth
    - Mater ynghylch gwrychoedd y Lawnt Fowlio
    - Bws 75 ddim yn stopio
    - Meinciau CBSC ar y Prom
14. Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd a digwyddiadau
15. Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.

**Nos Fercher, Chwefror y 4ydd, 2026**

**CYFARFOD Y CYNGOR TREF, 7yh, Siambr Cyngor Llanfairfechan ac ar-lein dros Teams**

**COFNODION**

**Yn bresennol: Cadeirydd: Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis; Maer Nia Jones; Cynghorydd Sir Cyng. Penny Andow; Cyng. Charlotte Davies; Cyng. Andrew Hinchliff BEM. Cyng. Chris Jones; Cyng. Alun Rhys Jones; Cyng. Christine Roberts; Clerc y Dref: Jayne Neal Dirprwy Glerc y Dref: Callum Morrison**

**1. Croesawodd y Dirprwy Faer Sharne-Marie Bellis bawb i'r cyfarfod a chytunwyd i recordio'r cyfarfod er mwyn llunio'r cofnodion.** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**2. Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb (DLlL 1972 Atodlen 12) Cyng. Rhys Griffiths. Cyng. Leena Farhat; Cyng. Preben Vangberg.** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**3. Derbyn datganiadau o ddiddordeb – (Diddordebau personol neu ragfarnus y gellir eu datgelu)**

**Datganwyd diddordebau personol gan y Cyng. N Jones. Nodwyd bod lwfans gofalu yn hawl statudol**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**4. Derbyn sylwadau ac ymholiadau gan y cyhoedd**

**Neb yn bresennol** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**5. Derbyn a chymeradwyo cofnodion Ionawr y 14eg, 2025, a'r Rhestr Weithredu (DLlL1972 Atodlen 12)**

**Cafodd y rhain eu dosbarthu'n flaenorol, a trafodwyd y materion canlynol**

**1. Mae'r goleuadau stryd o amgylch Cae Ffynnon a Fforדd Aber yn dal yn broblem, ond mae timau gwaith wedi bod allan i geisio mynd i'r afael â'r broblem**

**Cynigwyd gan y Cyng. C Jones Eiliwyd gan y Cyng. C Davies Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi**

**6. Derbyn gwybodaeth am lunio datganiad cenhadaeth ar gyfer Cyngor Tref Llanfairfechan**

**Dim cynnydd pellach – Clerc i ymchwilio ymhellach gyda Chynghorau Tref eraill** **Penderfynwyd derbyn a nodi**

**7.Derbyn a chymeradwyo Adroddiad Cynllun Digwyddiadau 2026**

**Estynnwyd diolch i'r Dirprwy Glerc am lunio adroddiad cyllideb hollgynhwysol sy'n cynnwys awgrymiadau am y digwyddiadau sydd ar y gweill ar gyfer 2026/27. Nodwyd y bydd hyn yn helpu gyda symleiddio'r rhaglen a bydd yn cynnig gwybodaeth eglur ar gyfer y pwyllgor cyllid pan fyddan nhw'n ystyried opsiynau ar gyfer eu harchebiant 2027/28. Trafodwyd y ddogfen yn drylwyr, a'r cynllun digwyddiadau - Cytunwyd ar y digwyddiadau Codi Sbwriel; Llanfairfechan yn Dathlu; Yr Wythnos Fawr Werdd; Y Gystadleuaeth Castell Tywod; Diwrnod Cymunedol Pendalar; Digwyddiad Dinesig y Maer; Noson Tân Gwyllt; Gŵyl y Merlod Gwyllt (yn amodol ar gyllid allanol); Sul y Cofio; Dathliad y Gwirfoddolwyr; Farchnad y Nadolig gydag ambell amod:**

**1. Digwyddiad Codi Sbwriel – Gwahodd y Rotari, U3A, y Brownies a gwirfoddolwyr Grwpiau Cymunedol i ymuno.**

**2. Llanfairfechan yn Dathlu – Gellid ei gysylltu gydag ail-agoriad y pwll padlo ar ei newydd wedd ym mis Mai. Gwahodd y Cynghorydd Sir i fod yn rhan o hyn.**

**3. Yr Wythnos Fawr Werdd – Nodwyd bod y digwyddiad hwn wedi'i arwain gan sesiynau grŵp cymunedol a rôl y Cyngor Tref ydy llunio'r gwaith marchnata, y rhaglen a chynnig cymorth i'r grwpiau. Dylid gwahodd Grŵp Rhandiroedd y Rotari i ymuno ar gyfer y sesiwn ar ddydd Mawrth – mae'n bwysig hysbysebu'r cyfleuster cymunedol gwerthfawr hwn. Mae croeso i bawb ddod i'r rhandir ac mae'n gwbl addas ar gyfer cadeiriau olwyn ac unrhyw un sydd ag anghenion ychwanegol. Dylid ystyried defnyddio'r Clwb Croquet i weld os hoffan nhw gymryd rhan. Nodwyd y bu'r ymateb i'r gystadleuaeth lluniau'n ardderchog ac mae angen mynd ati i feddwl am y gwobrau ar ei gyfer.**

**4. Cystadleuaeth Castell Tywod – Mae hwn wedi'i drefnu ar gyfer y Diwrnod Castell Tywod Cenedlaethol ac mae ar gychwyn yr wythnos Diwrnod Chwarae Cenedlaethol. Dylid chwilio am nawdd a chyfraniadau gwobrau ar gyfer y digwyddiad i annog busnesau lleol i fod yn rhan ohono. Tîm i gysylltu gyda Sional fel posibilrwydd.**

**5. Diwrnod Cymunedol Pendalar – Cytunwyd bod yr hufen iâ am ddim i wirfoddolwyr yn rhan bwysig o hyn gan ei fod yn gadarnhaol dros ben.**

**6. Digwyddiad Dinesig y Maer – Mae yna ddigwyddiad dinesig traddodiadol wedi'i drefnu ar gyfer 2026/27. Byddai hyn yn cynnwys gwasanaeth yng Nghapel Zinc yna bwffe yn siambr y Neuadd Gymunedol. Mae'r digwyddiad hwn wedi'i ariannu gan Lwfans y Maer ac ni fydd unrhyw gost o'r gyllideb graidd.**

**7. Digwyddiad Tân Gwyllt – Clerc i holi am brisiau sefydlog ar gyfer y digwyddiad am y tair blynedd nesaf fel diolch am yr ymrwymiad rheolaidd. Dirprwy Glerc i drefnu cytundeb ar gyfer y gwaith hwn.**

**8. Gŵyl y Merlod Gwyllt – Caiff hwn ei ariannu'n allanol a bydd cost o'r gyllideb graidd. Y gobaith ydy y bydd modd ehangu brand Gŵyl y Merlod Gwyllt a denu noddwyr busnes yn y dyfodol. Does yna ddim Gŵyl y Merlod Gwyllt arall ac mae'n gyfle unigryw ar gyfer y dref.**

**9. Digwyddiad Coffa Llanfairfechan – Dim newid ond nodwyd bod mwy o bobl yn dod iddo pob blwyddyn ac mae'n rhaid cau'r ffordd o ganlyniad i'r dorf o bobl sy'n ymgynnull ger y senotaff. Soniwyd hefyd bod yr orymdaith yn werthfawr. Mae'n rhaid sicrhau bod y system cau ffordd yn fwy llym, ac awgrymwyd dwyn i ystyriaeth opsiynau cau**


ffordd eraill i sicrhau'r gwerth gorau.  Nodwyd bod talu am gymorth sain proffesiynol wedi gwneud gwahaniaeth aruthrol ac mae werth yr arian heb os.

**10. Dathliad y Gwirfoddolwyr** – Cafodd ei gydnabod bod hwn yn dal yn cael ei ddatblygu fel digwyddiad newydd, ond nodwyd bod y digwyddiad hwn, yn enwedig, wedi ennyn diddordeb y gymuned ac yn cydnabod gwerthoedd cymunedol Llanfairfechan. Cynigwyd bod y bwffe yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan y Cyngor Tref er mwyn sicrhau bod y digwyddiad yn cael ei gynnal bob blwyddyn.

**11. Farchnad y Nadolig** – Gan na fydd y ffair bleser yn mynychu am ddim bellach, y staff i ymchwilio amrywiaeth o opsiynau ar gyfer y gweithgareddau tu allan a gofyn i CBS Conwy am gyngor am gau ffyrdd a rheoli torfeydd ar gyfer 1100+ o bobl.  **Penderfynwyd cymeradwyo'r holl ddigwyddiadau gydag unrhyw amodau pellach i ddychwelyd i'r cyngor pan fo angen**

**8.Derbyn a chymeradwyo Dyddiadau'r Sgip Cymunedol**

Cafodd y rhain eu dosbarthu'n flaenorol ac fe gytunwyd arnyn nhw:



**Estynnwyd diolch i bawb a oedd ynghlwm â hyn a chafodd ei gydnabod bod y prosiect yn llwyddiannus ac yn derbyn digonedd o gefnogaeth gan y preswylwyr.**
**Cynigwyd gan y Cyng. N Jones Eiliwyd gan y Cyng. C Davies Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi**

**9.Derbyn a chymeradwyo Amserlen Cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2026/27**
**Cafodd ei ddosbarthu'n flaenorol ac fe nodwyd ei fod wedi'i ddarllen:**

Cyngor Tref Llanfairfechan Town Council

## AMSERLEN CYFARFODYDD Y CYNGOR
## TIMETABLE OF COUNCIL MEETINGS
## 2026 / 2027

| PWYLLGOR | COMMITTEE | DYDDIAD / DATE |
|---|---|---|
| Cyngor Llawn | Full Council | 08/04/2026 |
| Cyngor Llawn | Full Council | 29/04/2026 |
| Cyfarfod Blynyddol | Annual Meeting | 20/05/2026 |
| Cyngor Llawn | Full Council | 10/06/2026 |
| Cyngor Llawn | Full Council | 01/07/2026 |
| Cyngor Llawn | Full Council | 22/07/2026 |
| Summer Break | | |
| Cyngor Llawn | Full Council | 09/09/2026 |
| Cyngor Llawn | Full Council | 30/09/2026 |
| Cyngor Llawn | Full Council | 21/10/2026 |
| Cyngor Llawn | Full Council | 11/11/2026 |
| Cyngor Llawn | Full Council | 02/12/2026 |
| Christmas Break | | |
| Cyngor Llawn | Full Council | 13/01/2027 |
| Cyngor Llawn | Full Council | 03/02/2027 |
| Cyngor Llawn | Full Council | 24/02/2027 |
| Cyngor Llawn | Full Council | 17/03/2027 |

### Lleoliad / Location:

**Nos Fercher am 7yh,**
**yn Siambr y Cyngor**
**Neuadd Gymunedol, Ffordd y Pentref,**
**Llanfairfechan**

**Wednesday 7pm**
**in the Council Chamber**
**Community Hall, Village Road,**
**Llanfairfechan**

Dyddiadau ac amseroedd yn gywir ar adeg gyhoeddi, ond efallai y bydd newid o bryd i'w gilydd.
Dates and times are correct at time of publishing but may be subject to change from time to time.

**Cynigwyd gan y Cyng. N Jones Eiliwyd gan y Cyng. C Jones Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi**
**10.Derbyn gwybodaeth ac ystyried cymorth ar gyfer Prosiect Precious Polymers Crest**

**1. Nod y prosiect hwn ydy gweithio gyda grwpiau cymunedol lleol a grwpiau ieuenctid a noddi grwpiau i ddeall yn well y mathau o blastig, sut i leihau halogiad a beth ellir ei ailgylchu. Cytunwyd anfon llythyr o gefnogaeth at y prosiect hwn.**
**2. Anfonodd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Babanod e-bost hefyd yn gofyn am lythyr o gefnogaeth ar gyfer cais i Ddŵr Anafon i ail-beintio'r llinellau ar y maes chwarae.**
**Cynigwyd gan y Cyng. P Andow Eiliwyd gan y Cyng. A Hinchliff Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi**
**11. Derbyn a chymeradwyo adroddiadau ariannol a'r taliadau cyfredol ar gyfer Chwefror y 4ydd, 2026**
**Cafodd yr holl wybodaeth ei dosbarthu ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.**
**Cynigwyd gan y Cyng. P Andow Eiliwyd gan y Cyng. A Hinchliff Yn Unfrydol Penderfynwyd cymeradwyo a nodi**
**12. Derbyn gwybodaeth am faterion cynllunio:**
**Aeth aelod o Dîm yr Amgylchedd i'r safle i asesu'r coed sy'n rhan o'r cais.**
**0/53133 – 34 Parc Henblas, Llanfairfechan LL33 0RW Nodwyd y byddai'r cypreswydd yn elwa o'r gwaith arfaethedig. Mae'r Cygnor yn argymell bod yr ymgeiswyr yn dilyn canllawiau'r Swyddog Coed.**
**0/53163 – 2 Mona View, Ffordd yr Orsaf, Llanfairfechan LL33 0AR**
**Aeth aelod o Dîm yr Amgylchedd i'r safle i asesu'r coed sy'n rhan o'r cais.**
**Nodwyd na fyddai'r coed yn elwa o'r gwaith arfaethedig. Mae'r Cyngor yn argymell bod yr ymgeiswyr yn dilyn canllawiau'r Swyddog Coed Penderfynwyd derbyn a nodi**
**13. Derbyn gohebiaeth**
**1. Gwrychoedd y Lawnt Fowlio – Hysbysodd Clwb Bowlio Llanfairfechan bod CBS Conwy bellach wedi torri'r gwrychoedd. Mae hyn yn newyddion da, ond nodwyd bod y gwaith braidd yn hwyr. Mae hyn o ganlyniad i broblemau gyda pheiriannau torri CBSC.**
**2. Bws 75 ddim yn stopio – mae angen casglu gwybodaeth bellach am hyn. Y Clerc i gysylltu gyda Llew Jones i'w holi am eu sylwadau nhw.**
**3. Meinciau CBSC ar y Prom – Gohebiaeth gyda Harbwrfeistr Conwy. Mae'r fainc sydd wedi torri wedi'i thynnu bellach ond nodwyd bod sawl mainc ar hyd y rhan hwnnw, felly nid yw'n fawr o bryder. Mae'r harbwrfeistr wedi'i atgoffa o brosiect meinciau Cyngor Tref Llanfairfechan fel a ganlyn:**
***Mae gan y Cyngor Tref brosiect meinciau coffa ac maen nhw'n fodlon iawn cynnig plac coffa am breswylydd fel rhan o'r trefniant hwn. Y gobaith ydy y bydd y weithdrefn hon yn fodd i fwy o breswylwyr fanteisio ar yr opsiwn i brynu plac er cof am eu hanwyliaid.***
***Mae gan y Cyngor Tref awdurdodaeth dros y meinciau canlynol:***
***1 x gyferbyn ag ysgol Pant y Rhedyn***
***1 x Ffordd y Dyffryn ger y bont droed i Ffordd y Felin***
***2 x Ger y Groesffordd***
***2 x mainc metel ar y cob***
***4 x mainc bren ar Y Cob (Sylwch – does dim lle ar ôl ar y rhain ar gyfer placiau)***
***Mae'r Cyngor Tref wedi cytuno bod modd ychwanegu hyd at dri phlac at bob mainc metel a dau ar bob mainc bren er mwyn i ragor o breswylwyr achub ar y cyfle.***
***Bydd y Cyngor Tref yn parhau i fod yn berchen ar y fainc, a byddwn yn sicrhau bod y meinciau'n cael eu cynnal i safon dda. Caiff y placiau eu cadw yno am 20 mlynedd, ac yn dilyn hynny mae'n bosibl y bydd y Cyngor Tref yn cysylltu gyda chi i ofyn a hoffech chi adnewyddu'r plac neu ei dynnu.***
***Mae'r placiau coffa yn 10cm x 5cm a gallwn eu harchebu gan Cawthray yn Llandudno ac yna'u gosod. Gallwch ddewis prynu plac pres am £45.00 a byddwn yn gofyn ichi dalu am gost y plac.***
**4. Cafnau a Draeniau CBSC – derbyniwyd gwybodaeth gan CBS Conwy:**
**a. Cafnau a draeniau**
**Rydym yn parhau i gyflawni gwaith archwilio diogelwch priffyrdd rheolaidd arferol, yn unol â'n Polisi Cynnal a Chadw ac Archwilio Priffyrdd. At hyn, rydym yn cyflawni gwaith glanhau cafnau cyfyngedig i fynd i'r afael ag ôl-groniad o adroddiadau. Gallwch adrodd am unrhyw feysydd neu faterion sy'n peri pryder yma: https://erf.reporting.conwy.gov.uk/.**
**b. Ffyrdd, dail a malurion**
**Yn ddiweddar bu inni wynebu heriau logistaidd sylweddol oherwydd offer yn torri. O ganlyniad, rydym wedi ymgysylltu gyda chontractwyr allanol i gefnogi ein darpariaeth fewnol, ac rydym wrthi'n mynd i'r afael ag ôl-groniad o geisiadau gwasanaeth. Gallwch adrodd am unrhyw feysydd neu faterion sy'n peri pryder ychwanegol yma: https://erf.reporting.conwy.gov.uk/.**

**c. Os ydy'r broblem gyda'r Goleuadau Stryd yn dal yn bodoli, mae'n bosibl y byddwch yn dymuno cysylltu gyda'r tîm Goleuadau Stryd yn uniongyrchol ar street.lighting@conwy.gov.uk am y diweddaraf.**

**5. Toiledau Cyhoeddus CBSC – Rydym wedi derbyn e-bost gan CBS Conwy bod yn rhaid i'r Cyngor Tref gychwyn talu am y cyfleustodau yn nhoiledau Ffordd y Pentref gan eu bod bellach yn cael eu cydnabod fel perchnogion y safle. At hyn, cytunwyd na ddylid ail-agor uned Toiledau Ffordd yr Orsaf, sydd wedi bod ar gau yn sgil y gwaith adeiladu sydd ei angen, ac nid yw'r Cyngor Tref yn bwriadu cymryd yr awenau drosto fel uned storio.**

**At hyn, mae gwybodaeth bellach wedi'i anfon allan ynghylch: noddi Toiledau'r Promenâd:**

**Gwelwch yr ymatebion isod i ymholiadau diweddar yn gysylltiedig â'r uchod:**

**a. Beth sydd wedi'i gynnwys yn y costau noddi?**

**Mae'r nawdd y gofynnwyd amdano yn cynnwys cyfleustodau, costau gweithredu, atgyweiriadau, trafnidiaeth a chostau gweithwyr.**

**b. Beth ydy'r oriau agor yn 2026/27?**

**Bydd yr oriau agor yr un fath ag y maen nhw yn 2025/26.**

**c. Sut mae'r costau noddi ar gyfer 2026/27 wedi'u cyfrifo?**

**Mae cyfanswm y nawdd a dderbyniwyd gan yr holl gynghorau tref a chymuned yn cyfrannu tuag at lai na hanner y gost o ddarparu'r gwasanaeth cyfleustra cyhoeddus.**

**Gan hynny, mae'r Strategaeth Toiledau Lleol sy'n ceisio sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn gofyn am gynnydd mewn nawdd, sydd wedi'i gyfyngu ar 7% ar gyfer 2026/27.**

**Cyflenwi a gosod arwydd safonol 'Noddir gan Gyngor Cymuned/Tref xxx' at fynedfa (mynedfeydd) yr holl gyfleusterau cyhoeddus yn y cynllun nawdd.**

**Fel y cytunwyd ar 14/01/26 caiff y camau gweithredu canlynol eu cyflawni i ddarparu hyn.**

**a) Cynghorau Tref a Chymuned i gytuno ar y fanyleb arwyddion**

**b) CBS Conwy i gaffael 3 dyfynbris ar gyfer cynhyrchu arwyddion a threfnu cyfieithu'r testun y cytunwyd arno.**

**c) Yn amodol ar gytundeb yr holl gynghorau tref a chymuned, CBSC i archebu a threfnu gosod yr arwyddion ac anfonebu'r cynghorau tref a chymuned**

**6. Baner Ffordd yr Orsaf Mae un wedi'i dynnu i lawr ar gais preswylydd**

**7. Mae preswylwyr wedi bod mewn cyswllt â'r Aelod Cabinet am y Cynllun Amddiffyn Rhag Llifogydd**

**Mae e-bost pellach wedi'i dderbyn gan Reolwr y Tîm Amddiffyn rhag Llifogydd ond does dim gwybodaeth bendant am y gwaith yn y cyfamser sydd bellach yn ddyledus o dan y cynnig gan CBS Conwy o 12 wythnos. Caiff gweithgor ei sefydlu, a chytunwyd y dylai'r Dirprwy Glerc fod yn aelod o'r grŵp. Roedd yr aelodau etholedig yn anhapus dros ben gyda'r lefel o gyfathrebu a'r Clerc i anfon e-bost gadarn yn gofyn am wybodaeth ymhen 7 diwrnod. Soniwyd am y maes parcio anorffenedig hefyd fel mater a'r Clerc i anfon e-bost at GSBC am ymateb.**

**Penderfynwyd derbyn a nodi**

**14.Derbyn adroddiadau o wahanol gyfarfodydd a digwyddiadau**

**1. Cyfarfod gyda Chyngor Sir Gwynedd a Kehoes ynghylch Morfa Madryn**

**Bu i gyfarfod cadarnhaol ddangos mae'n bosibl y gallai Gyngor Gwynedd fanteisio ar gyllid ar gyfer y gwaith yno. Y Clerc i anfon llythyr o gefnogaeth am hyn.**

**2. Digwyddiadau ar y gweill – Marchnad Bwyd a Chrefftau gyda thema Sant Ffolant ar ddydd Sul, Chwefror yr 8fed. Mae sesiwn wybodaeth Cynllun Datblygu Lleol Newydd y Cyngor Tref ar ddydd Llun y 9fed o 9yb.**







**3. Cyfarfod gyda'r grŵp partneriaeth am ddamweiniau a digwyddiadau ar yr A55 – bydd y Cynghorydd Sir yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf** **<u>Penderfynwyd derbyn a nodi popeth</u>**

**<u>15.Derbyn canmoliaethau, cwynion a materion brys i'w dwyn i ystyriaeth a'u cofnodi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol.</u>**

**1. Mynegwyd tristwch am farwolaeth y cyn-Gyng. Janet Thomas ac fe anfonwyd cydymdeimladau at ei merch a'i theulu. Cynhelir yr angladd ar Chwefror yr 20fed 2026 ym Mochdre gyda chais i wisgo dillad lliwgar. Mae'r teulu wedi cytuno i gasglu rhoddion ar gyfer yr elusennau – Uned Arennol a Neuadd Gymunedol Llanfairfechan.**
**2. Grŵp Ymgysylltu gyda Chleifion (PEG) wedi'i drefnu ar gyfer Chwefror y 9fed – anfonwch unrhyw ymholiadau am y Feddygfa.**
**3. Dim biniau gwastraff yn yr orsaf drenau – mae hyn yn sgil deddfwriaeth Llywodraeth Cymru. Mae'n annhebygol y bydd y biniau'n dychwelyd.**
**4. Hysbysiad o arwyddion ffordd dryslyd ger y gwaith ffordd ar Ffordd yr Orsaf. Bydd y Cynghorwyr yn siarad gyda'r gweithwyr ffordd**
**5. Cam-drin yr Henoed – adroddiad am drwyddedau gyrru'n cael eu cymryd gan bobl hŷn heb wiriad gan feddyg. Rydym wrthi'n mynd i'r afael â hyn. Bu hefyd rhywfaint o wybodaeth ynghylch sicrhau bod pobl hŷn yn derbyn y budd-daliadau sydd i'w cynnig. Mae'r dolenni wedi'u rhannu ar-lein ac yn y neuadd.**




**6. Cwyn gan ymwelydd ynghylch parcio yn y maes parcio – maen nhw wedi dweud na fyddan nhw'n dychwelyd i Lanfairfechan.**

**Daeth y cyfarfod i ben am 10:02 yh**